Our Future Health



# Dod â phobl at ei gilydd i ddatblygu ffyrdd newydd o atal, canfod a thrin clefydau

Mawrth 2026 (fersiwn 4.0)







# Dyma wahoddiad i chi gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil o'r enw Our Future Health.

**Mae cymryd rhan yn golygu:**

- Darllen rhywfaint o wybodaeth am Our Future Health.
- Darllen a llofnodi ffurflen cydsyniad.
- Rhoi caniatâd i Our Future Health gael mynediad at ddata sy'n ymwneud â'ch iechyd, ei storio a chysylltu ag ef.
- Llenwi holiadur amdanoch chi eich hun.
- Rhoi sampl o'ch gwaed.

**Cyn i chi benderfynu a ydych am ymuno ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall mwy am Our Future Health. Darllenwch yr wybodaeth yma, sy'n cynnwys:**

1. Gwybodaeth am Our Future Health.
2. Beth mae ymuno yn ei olygu.
3. Sut rydym yn diogelu eich data a'ch samplau.
4. Y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan.
5. Sut rydym yn cael ein rhedeg a'n hariannu.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost at **support@ourfuturehealth.org.uk** neu ein ffonio ar **0808 501 5634.**

# 1. Gwybodaeth am Our Future Health

## Beth yw Our Future Health?

Our Future Health yw'r rhaglen ymchwil iechyd fwyaf erioed yn y DU.

Heddiw, mae gormod o bobl yn treulio blynyddoedd lawer o'u bywyd hŷn mewn iechyd gwael. Nod Our Future Health yw helpu cenedlaethau'r dyfodol i fyw mewn iechyd da am gyfnod hirach.

Mae Our Future Health yn bwriadu casglu gwybodaeth a samplau gan hyd at 5 miliwn o oedolion ledled y DU. Bydd ymchwilwyr yn gallu gwneud cais i astudio'r wybodaeth a'r samplau i wneud darganfyddiadau newydd am iechyd a chlefydau.

Gallai canfyddiadau a wneir drwy Our Future Health arwain at ffyrdd newydd o ragweld, atal a chanfod clefydau yn gynharach mewn bywyd pan fydd yn haws eu trin, gan gynnwys clefydau fel dementia, canser, diabetes, clefyd y galon a strôc.

Rydym yn eich gwahodd chi i ymuno ag Our Future Health a rhannu eich gwybodaeth iechyd i helpu i wneud y darganfyddiadau hyn am iechyd a chlefydau.

Rydym yn annog pobl o bob cefndir ac ethnigrwydd i gymryd rhan yn Our Future Health. Yn y gorffennol, nid yw pobl o gymunedau Asiaidd, Du a lleiafrifoedd ethnig, a phobl ar incwm is wedi cael eu cynrychioli'n dda mewn astudiaethau ymchwil. Mae hyn wedi golygu nad yw darganfyddiadau newydd wedi helpu pawb yn yr un modd.

Mae'r rhaglen ymchwil yn cael ei rhedeg gan elusen Our Future Health mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, y diwydiant Gwyddorau Bywyd, elusennau sy'n bartneriaid, a systemau gofal iechyd pob un o wledydd y DU.

## Pam ydw i'n cael fy ngwahodd i ymuno ag Our Future Health?

Rydych chi'n cael eich gwahodd i ymuno ag Our Future Health oherwydd eich bod dros 18 oed ac yn byw yn y DU. Efallai eich bod wedi clywed am y rhaglen ymchwil o nifer o wahanol lefydd, er enghraifft drwy'r GIG (fel ysbyty, canolfan rhoi gwaed, neu eich meddyg teulu) neu efallai eich bod wedi cael llythyr, e-bost neu neges destun am y rhaglen ymchwil.

## Oes rhaid i mi ymuno ag Our Future Health?

Nac oes. Eich dewis chi yn unig yw ymuno. Efallai y byddwch chi eisiau trafod eich penderfyniad gyda ffrindiau neu berthnasau. Os byddwch yn ymuno ac yna'n newid eich meddwl, gallwch adael unrhyw bryd – gweler yr adran "Beth os ydw i'n newid fy meddwl ac yn dymuno gadael y rhaglen?" i gael rhagor o wybodaeth.







# 2. Beth mae ymuno yn ei olygu

## Beth fyddwch yn gofyn i mi ei wneud os byddaf yn ymuno ag Our Future Health?

**Os byddwch yn penderfynu ymuno ag Our Future Health, byddwn yn gofyn i chi wneud y canlynol:**

- **Darllen a llofnodi ffurflen cydsyniad.** Mae hon yn ddogfen a fydd yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn cytuno i gymryd rhan yn Our Future Health, a bydd yn cynnwys cais am eich caniatâd i wneud y canlynol:
  - **Caniatáu i ni gael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â'ch iechyd.** Byddwn yn defnyddio cofnodion iechyd amdanoch chi, yn eu storio ac yn cysylltu â nhw er mwyn cael darlun cywir o'ch iechyd. Gall cofnodion sy'n ymwneud â'ch iechyd gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a gasglwyd yn ystod apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol, manylion clefydau penodol fel canser a sut cawsant eu trin, canlyniadau profion, a delweddau meddygol, fel sganiau. Gall y cofnodion hyn gael eu cadw gan y GIG neu sefydliadau eraill (er enghraifft, cofrestrau penodol i glefydau neu afiechydon, meddygfeydd, optegwyr neu ganolfannau rhoi gwaed) yn y DU. Mae enghreifftiau o setiau data iechyd y gallem gysylltu â nhw i'w gweld ar wefan Our Future Health: (https://research.ourfuturehealth.org.uk/data-and-cohort/#linked-health-records-data)
    - I gysylltu â'r cofnodion iechyd hyn, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch data adnabyddadwy, fel eich enw, eich dyddiad geni neu eich rhif GIG, yn ddiogel gyda'r sefydliad sy'n cadw'r cofnodion. Gwneir hyn i sicrhau ein bod yn cysylltu â'r cofnod cywir.
    - Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth amdanoch o gofnodion iechyd wrth i'r rhaglen ymchwil fynd yn ei blaen, a hynny am flynyddoedd lawer. Felly, byddwn ni'n parhau i gasglu gwybodaeth amdanoch yn ystod eich oes os byddwch yn aros yn y rhaglen ymchwil.
- **Llenwi holiadur amdanoch chi eich hun.** Byddwn yn gofyn i chi lenwi holiadur am eich ffordd o fyw a'ch iechyd. Bydd yr holiadur yn cael ei rannu'n adrannau, ac nid oes rhaid i chi ei lenwi i gyd ar unwaith. Bydd rhai o'r cwestiynau'n holi am bethau sydd, i rai pobl, yn breifat, fel eich pwysau neu eich incwm. Rydym yn gofyn y cwestiynau hyn oherwydd yn aml mae cysylltiad rhwng y ffactorau hyn ac iechyd pobl. Efallai y bydd yn teimlo'n anghyfforddus os byddwch yn cael cwestiynau am eich iechyd, cefndir neu ffordd o fyw yn ein holiaduron. Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.
- **Rhoi sampl o'ch gwaed.** Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan, byddwn yn gofyn i chi roi sampl gwaed. Bydd pryd yn union y byddwn yn casglu eich sampl yn dibynnu ar ble y byddwch yn mynd i'w ddarparu. Edrychwch ar yr adran "Sut byddwch chi'n casglu fy sampl?" i gael rhagor o wybodaeth.
- **Cael mesuriadau corfforol.** Efallai y bydd rhai mesuriadau corfforol yn cael eu cymryd hefyd pan fyddwch yn rhoi eich sampl gwaed, megis:
  - Pwysedd gwaed a chyfradd pwls.
  - Taldra eistedd a sefyll.
  - Cylchedd o amgylch eich canol, cluniau a gwddf.
  - Pwysau, a chyfansoddiad braster y corff.

Os ydych chi'n rhoi gwaed ac wedi cael gwahoddiad i ymuno ag Our Future Health gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT), ni fyddwch yn cael cynnig mesur eich corff na phrawf pwysedd gwaed oherwydd mai prin yw'r amser sydd ar gael mewn canolfannau rhoi gwaed.

## Beth sydd angen i mi ei wybod os ydw i'n rhoi gwaed ac wedi cael gwahoddiad i ymuno ag Our Future Health gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT)?

**Darllenwch os ydych chi'n ymuno ag Our Future Health drwy eich apwyntiad rhoi gwaed gyda Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT).**

Pan fyddwch yn ymuno ag Our Future Health, gofynnir i chi ddarparu sampl gwaed bach i helpu ymchwilwyr i ddysgu mwy am iechyd dynol.

Gallwch roi eich sampl gwaed yn syml ac yn gyflym wrth roi gwaed yn eich apwyntiad rhoi gwaed nesaf. Nid oes angen i chi drefnu apwyntiad ychwanegol.

Os byddwch yn ymuno ag Our Future Health drwy NHSBT, bydd Our Future Health yn rhannu'r wybodaeth ganlynol amdanoch chi ag NHSBT:

- Gwybodaeth enetig benodol o'ch sampl gwaed
- Gwybodaeth bersonol adnabyddadwy amdanoch chi, i gysylltu'r wybodaeth enetig y byddwn yn ei rhannu â'ch cofnod rhoddwr NHSBT



### Pa wybodaeth enetig o'ch sampl gwaed fyddwn ni'n ei rhannu ag NHSBT?

I gasglu gwybodaeth enetig o'ch sampl gwaed, rydym yn defnyddio proses o'r enw genoteipio. Mae genoteipio yn canfod y gwahaniaethau yn ein DNA.

Bydd Our Future Health yn rhannu eich data genoteipio ag NHSBT er mwyn deall:

- Mathau o gelloedd gwaed coch
- Mathau o blatennau
- Is-fathau o antigenau lewcocyt dynol (HLA)
- Grwpiau o gelloedd gwaed gwyn

Bydd NHSBT yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gwaed a bôn-gelloedd sy'n cyfateb yn well i gleifion. Bydd yr wybodaeth enetig o'ch sampl gwaed yn helpu NHSBT i wella eu gwasanaethau drwy'r canlynol:

- Cynyddu faint o waed sydd ar gael i bobl â grwpiau gwaed prin sydd angen trallwysiadau gwaed.
- Gwella cywirdeb y broses o baru gwaed rhwng rhoddwyr a derbynwyr.
- Dod o hyd i roddwyr cydnaws yn gyflym ac yn haws.

Bydd NHSBT hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwn i helpu i wneud cynhyrchion y gellir eu defnyddio i helpu ar gyfer y canlynol:

- Diagnosio, atal a thrin clefydau
- Gwaith labordy
- Addysg a hyfforddiant
- Ymchwil a datblygu.

Gall NHSBT hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch gwahodd i ystyried ymuno â Chofrestr Mêr Esgyrn Prydain os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Mae gan NHSBT bolisi preifatrwydd sy'n egluro sut y byddant yn cadw eich data'n ddiogel. Mae hwn i'w weld ar eu gwefan (www.blood.co.uk) a dyma'r un broses a ddefnyddir ar gyfer eich rhoddion gwaed arferol.



## Sut byddwch chi'n casglu fy sampl?

Gofynnir i chi ddarparu sampl gwaed ar gyfer Our Future Health. Rydym eisiau iddi fod mor hawdd â phosibl i chi gymryd rhan.

Os cewch eich gwahodd i gymryd rhan yn un o ganolfannau Our Future Health neu fferyllfa gymunedol, gellir trefnu apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Wrth i'n rhaglen ehangu, efallai y byddwn yn treialu ffyrdd newydd o'i gwneud yn haws cymryd rhan. Er enghraifft, gallwn ystyried rhoi cyfle i gyfranogwyr roi eu sampl gwaed gartref.

Os cewch eich gwahodd i gymryd rhan drwy eich meddygfa, ysbyty neu ganolfan rhoi gwaed, byddwn yn gwneud yn siŵr bod eich sampl gwaed yn cael ei gymryd yn ystod apwyntiad arferol.



## Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda fy sampl?

Ar ôl i ni gasglu eich sampl gwaed, bydd hwnnw'n cael ei rannu'n samplau llai. Byddwn yn defnyddio un o'r samplau i echdynnu **DNA** (gwybodaeth enetig) a bydd gweddill y samplau'n cael eu storio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Er enghraifft, yn y dyfodol, efallai y byddwn yn defnyddio rhai o'ch samplau sydd wedi'u storio i edrych ar lefelau colesterol, neu lefelau siwgr yn y gwaed.

Er bod 99% o DNA yr un fath i bob person, mae llawer o fân wahaniaethau yn DNA pobl. **Amrywiolion** yw'r enw a roddir ar y gwahaniaethau hyn, ac maen nhw'n gyfrifol am lawer o'r gwahaniaethau rhwng pobl, fel eu grŵp gwaed. Mae rhai amrywiolion yn **gyffredin** ac mae rhai yn **brin**.

**Yn bwysig, mae rhai amrywiolion yn dylanwadu ar y risg sydd gan unigolyn o ddatblygu clefydau gwahanol.**

Byddwn yn defnyddio technoleg o'r enw **arae Polymorffedd Niwcleotid Sengl (arae SNP)** i edrych ar rai o'r amrywiolion yn eich DNA.

Os yw'n bosibl, efallai y byddwn hefyd yn defnyddio proses o'r enw **dilyniannu genomau** a thechnolegau genetig eraill i edrych ar eich DNA. Mae dilyniannu genomau yn darllen ac yn cofnodi bron yr holl DNA yn eich genom (eich set gyflawn o DNA).

Bydd eich samplau a'ch DNA yn cael eu storio yn ein banciau meinweoedd i gael eu dadansoddi gan ymchwilwyr yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, efallai y bydd ymchwilwyr hefyd yn defnyddio eich sampl i fesur rhannau eraill o'ch gwaed, i weld a ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a'r risg o afiechyd.

## Fydda i'n cael canlyniadau personol o fy samplau a'm data?

Yn eich apwyntiad, efallai y cynigir canlyniadau'r mesuriadau a gymerir i chi, fel eich pwysedd gwaed. At ddibenion ymchwil y cymerir y mesuriadau hyn, nid oes bwriad iddynt fod yn archwiliad iechyd personol. Rhaglen ymchwil yw Our Future Health, nid yw'n rhan o'ch gofal clinigol arferol.

Sylwch, os ydych chi'n rhoi gwaed ac wedi cael gwahoddiad i ymuno ag Our Future Health gan NHSBT, ni fyddwch yn cael cynnig prawf pwysedd gwaed na mesuriadau eraill.

Gan mai rhaglen ymchwil yw Our Future Health, ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i roi diagnosis neu drin clefyd, ac ni fyddwch yn cael adborth personol yn awtomatig am eich samplau, DNA na data arall.

Ond yn y dyfodol, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn a ydych chi'n dymuno cael adborth personol o'ch samplau, DNA neu ddata arall. Efallai y bydd yr adborth hwn yn rhoi gwybodaeth newydd i chi am eich iechyd neu'ch risg o glefydau, fel diabetes a chlefyd y galon. Byddwn bob amser yn rhoi rhagor o wybodaeth a chyfle i chi ofyn cwestiynau cyn i chi wneud eich penderfyniad, a gallwch gytuno neu beidio.

## Fyddwch chi'n cysylltu â mi eto yn y dyfodol?

Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan yn Our Future Health, efallai y byddwn yn cysylltu â chi eto yn y dyfodol. Gallwch ddiweddaru eich dewisiadau o ran pa ohebiaeth rydych yn dymuno ei chael gennym ni ar unrhyw adeg, naill ai yn uniongyrchol drwy'r negeseuon e-bost rydym yn eu hanfon atoch, neu drwy eich cyfrif ar-lein. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gallu dewis peidio â chael yr holl ohebiaeth heb i chi dynnu'n ôl o'r rhaglen ymchwil (i gael rhagor o wybodaeth am dynnu'n ôl o'r rhaglen ymchwil, ewch i'r is-adran "Beth os ydw i'n newid fy meddwl ac yn dymuno gadael y rhaglen?").

**Dyma rai rhesymau pam y gallem gysylltu â chi (ymysg pethau eraill):**


- Anfon newyddion a diweddariadau am y rhaglen ymchwil.
- Gofyn i chi am eich profiadau o gymryd rhan.
- Gofyn i chi lenwi mwy o holiaduron.
- Gofyn am eich caniatâd i gasglu gwybodaeth berthnasol amdanoch chi o ffynonellau eraill.
- Eich gwahodd i apwyntiad i roi samplau biolegol (pellach), gan gynnwys gwaed.
- Eich gwahodd i apwyntiad ar gyfer asesiadau eraill, fel delweddu.
- Gofyn a hoffech chi gael adborth am eich iechyd neu'ch risg o afiechyd.
- Eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil eraill. Gall hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymwneud â'ch iechyd, fel eich genynnau, eich ffordd o fyw, neu'ch cyflyrau meddygol.
- Eich gwahodd i gyfrannu at ddatblygu deunyddiau hyrwyddo neu gyhoeddus, a/neu ddigwyddiadau i gefnogi'r rhaglen, neu gymryd rhan ynddynt.

Does dim rhaid i chi gytuno i gymryd rhan mewn unrhyw astudiaethau ymchwil eraill na darparu unrhyw wybodaeth na samplau eraill.









## Pwy fydd yn gwneud yr ymchwil, a sut bydd yn gweithio?

Bydd rhywfaint o'r ymchwil yn cael ei wneud gan ymchwilwyr yn Our Future Health, ond bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei wneud gan ymchwilwyr eraill.

Gallai'r ymchwilwyr hyn ddod o wledydd ymhob cwr o'r byd, a gallent ddod o sefydliadau fel prifysgolion, elusennau neu ddiwydiant.

Bydd angen i unrhyw ymchwilydd sy'n gwneud cais i wneud ymchwil fynd drwy broses ymgeisio gadarn, lle bydd ei gynigion yn cael eu hadolygu'n ofalus gan Fwrdd Mynediad. Mae'r Bwrdd Mynediad yn cynnwys arbenigwyr gwyddonol ac aelodau o'r cyhoedd i ddechrau, ond yn ddiweddarach bydd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Our Future Health.

Yr unig gynigion ymchwil yn ymwneud ag iechyd y bydd y Bwrdd Mynediad yn eu cymeradwyo fydd rhai sydd er budd y cyhoedd ac sy'n dod gan ymchwilwyr cofrestredig. Data dad-ddynodedig fydd yr unig ddata amdanoch chi y bydd unrhyw ymchwilwyr y rhoddir mynediad iddynt yn gallu ei weld. Felly, ni fyddant yn gallu gweld eich enw, eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth a fydd yn eich adnabod yn uniongyrchol fel unigolyn. Yn ogystal â hyn, bydd ymchwilwyr y rhoddir mynediad iddynt yn gorfod llofnodi cytundeb sy'n dweud na fyddant yn ceisio 'ail-ddynodi' unrhyw rai o'r cyfranogwyr o'r data y maent yn gallu ei weld.

**Bydd ymchwilwyr yn gallu gwneud cais i wneud dau fath o ymchwil:**

- Ymchwil sy'n defnyddio data a samplau gan Our Future Health yn unig.
- Ymchwil sy'n golygu ailgysylltu â phobl sy'n cymryd rhan yn Our Future Health. Our Future Health fydd yn ailgysylltu â chi'n uniongyrchol, nid ymchwilwyr. Bydd yr holl fanylion y gellir eu defnyddio i'ch adnabod yn cael eu cadw rhag ymchwilwyr oni bai eich bod yn cydsynio i'w rhannu.

## Ymchwil sy'n defnyddio data a samplau a gedwir gan Our Future Health yn unig

Bydd rhai astudiaethau ymchwil cymeradwy yn edrych ar y data neu'r samplau a gedwir gan Our Future Health i wneud darganfyddiadau am iechyd a chlefydau dynol.

Gallai'r data a'r samplau rydych chi'n eu darparu i Our Future Health helpu i wneud y darganfyddiadau hyn.

Ni fydd ymchwilwyr sy'n gweithio ar yr astudiaethau hyn yn gallu cael gafael ar eich enw na'ch manylion cyswllt.

## Ymchwil sy'n golygu ailgysylltu â phobl sy'n cymryd rhan yn Our Future Health

Efallai y bydd ymchwilwyr eisiau eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil newydd. Efallai y cewch eich gwahodd ar sail gwybodaeth iechyd amdanoch chi. Gallai'r astudiaethau hyn olygu eich bod yn cael adborth ar ffurf canlyniadau neu'n dysgu gwybodaeth newydd am eich iechyd neu'ch risg o afiechyd. Weithiau mae ymchwilwyr yn edrych ar bobl sy'n wynebu risg o afiechyd, a'r rhai nad ydynt yn wynebu'r risg honno. Os cewch eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth yn y dyfodol, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod gennych risg o'r clefyd hwnnw. Byddwch yn cael gwybodaeth i'ch helpu i wneud eich penderfyniad ynglŷn â chymryd rhan.

Os cewch eich nodi ar gyfer astudiaeth ymchwil benodol, bydd y camau canlynol yn digwydd:

**Cam 1:** Yn gyntaf, bydd Our Future Health yn cysylltu â chi i roi rhywfaint o wybodaeth i chi am yr astudiaeth rydych chi wedi cael eich dewis ar ei chyfer. Gallwch gytuno i dderbyn rhagor o wybodaeth neu beidio.

**Cam 2:** Os byddwch yn gwrthod, ni fyddwn yn cysylltu â chi eto ynglŷn â'r astudiaeth honno.

**Cam 3**: Os byddwch yn cytuno, efallai y byddwn yn gofyn i chi gysylltu â thîm yr astudiaeth, neu (ar ôl cael cydsyniad ychwanegol gennych chi) yn rhoi eich manylion cyswllt i'r ymchwilydd neu'r sefydliad sy'n cynnal yr astudiaeth. Gallan nhw eich gwahodd i gymryd rhan a rhoi rhagor o wybodaeth i chi am yr astudiaeth.

**Dim ond gydag ymchwilwyr neu sefydliadau ymchwil sy'n cynnal astudiaethau ailgysylltu cymeradwy y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt, eich gwybodaeth neu'ch data – a dim ond os ydych chi wedi rhoi cydsyniad i ni wneud hynny.**

## Am faint fyddaf yn rhan o'r rhaglen

Bydd Our Future Health yn rhedeg am amser hir iawn. Rydym yn gobeithio casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am iechyd cyfranogwyr wrth iddynt fynd yn hŷn, er mwyn i ymchwilwyr allu edrych yn ôl i ddod o hyd i'r arwyddion cynharaf o glefydau.

Dyna pam y byddwn, os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, eisiau cadw golwg ar eich iechyd am weddill eich oes, gan ddefnyddio eich cofnodion iechyd. Efallai y bydd ymchwilwyr yn parhau i ddefnyddio eich data mewn astudiaethau, hyd yn oed ar ôl i chi farw, neu os byddwch yn colli galluedd meddyliol. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gofalu am eich data, edrychwch ar adran 3: "Sut rydym yn diogelu eich data a'ch samplau".





## Beth os ydw i'n newid fy meddwl ac yn dymuno gadael y rhaglen?

Gallwch dynnu'n ôl o Our Future Health, neu leihau eich cyfranogiad, unrhyw bryd.

**Nid oes rhaid i chi roi rheswm, ond byddwn yn gofyn i chi ddewis rhwng dau opsiwn:**

1. Tynnu'n ôl yn rhannol[1]
2. Tynnu'n ôl yn gyfan gwbl[2]

Mae rhagor o wybodaeth am y ddau ddewis ar gael isod.

[1]Tynnu'n ôl yn rhannol. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn cysylltu â chi eto, nac yn cael rhagor o wybodaeth o'ch cofnodion iechyd, ond gallwn ddal i ddadansoddi'r samplau a'r data a roesoch cyn i chi dynnu'n ôl.

[2]Tynnu'n ôl yn gyfan gwbl. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn cysylltu â chi eto a byddwn yn dinistrio'r holl ddata a samplau a gasglwyd gennych. Mae set ddata wedi'i diweddaru yn cael ei rhyddhau i ymchwilwyr bob tri mis. Ni fydd modd tynnu eich data o unrhyw ymchwil sydd eisoes wedi dechrau, nac o setiau data a ryddhawyd ar gyfer ymchwil a oedd ar y gweill cyn i chi dynnu'n ôl. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'ch data a'ch samplau os ydych chi'n penderfynu tynnu'n ôl drwy fynd i'n gwefan.

## Dewisiadau tynnu'n ôl

| | **Dewis 1:** Tynnu'n ôl yn rhannol | **Dewis 2:** Tynnu'n ôl yn gyfan gwbl |
|---|---|---|
| Allwn ni barhau i gael gwybodaeth newydd o'ch cofnodion iechyd a ffynonellau data eraill? | Na allwch | Na allwch |
| Allwn ni barhau i ddefnyddio'r samplau a'r data rydych chi eisoes wedi'u rhoi? | GALLWCH | Na allwch* |

*Byddwn yn dinistrio'r samplau a'r data sydd gennym ar eich cyfer. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl eu tynnu o unrhyw ymchwil sydd eisoes wedi dechrau, nac o setiau data a ryddhawyd ar gyfer ymchwil a oedd ar y gweill cyn i chi dynnu'n ôl.

Os hoffech dynnu'n ôl, gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fewngofnodi i'ch cyfrif Our Future Health.

# 3. Sut rydym yn diogelu eich data a'ch samplau

## Pwy sy'n gyfrifol am fy nata a'm samplau?

Our Future Health fydd yn gyfrifol am eich samplau a'ch data, a bydd yn rheoli pwy sy'n gallu cael mynediad atynt yn llym. Yn ogystal â hyn, bydd angen i unrhyw ymchwilwyr y rhoddir mynediad iddynt gytuno i ddiogelu eich data (ewch i'r is-adran "Pwy fydd yn cael mynediad at fy samplau a'm data?" i gael rhagor o wybodaeth). Mae gofalu am eich preifatrwydd a diogelwch eich data yn bwysig iawn i ni. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am sut bydd eich data a'ch samplau'n cael eu rheoli.

## Sut bydd fy nata a'm samplau'n cael eu storio?

Bydd eich data'n cael ei storio a'i reoli'n ddiogel, yn unol â chyfreithiau diogelu data, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) a'r safonau diogelwch perthnasol. Mae'r holl fanylion am ble a sut rydym yn storio eich data ar gael yn ein Polisi Preifatrwydd yma: **https://study.ourfuturehealth.org.uk/privacy.**

Byddwn yn cyhoeddi cofnod cyfredol o ble mae'r data'n cael ei storio, a phwy sy'n ei brosesu, ar wefan Our Future Health.

Bydd yr holl wybodaeth a gasglwn amdanoch yn cael ei hamgryptio (yn cael ei ddisgrifio gyda chod) pan fydd yn cael ei chludo a phan mae'n segur, a bydd yn cael ei storio yn unol â safonau diogelwch cadarn.

Bydd eich samplau, eich DNA sydd wedi ei echdynnu, a data sy'n ymwneud â'ch iechyd (gan gynnwys data genetig) yn cael eu dad-ddynodi. Mae hyn yn golygu y bydd data y gellir ei ddefnyddio i'ch adnabod, fel eich enw, eich rhif GIG neu'ch cyfeiriad, yn cael eu tynnu o'r eitemau hyn a'u storio'n ddiogel ar wahân.

Yn y DU, bydd eich samplau'n cael eu storio yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2004 a Deddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006, sef cyfreithiau'r DU sy'n rheoli sut mae samplau dynol (fel sampl gwaed) yn cael eu rheoli. Gallai eich samplau dad-ddynodedig, eich DNA sydd wedi ei echdynnu, a data sy'n ymwneud â'ch iechyd, gan gynnwys data genetig, gael ei anfon at broseswyr cymeradwy y tu allan i'r DU i gael eu dadansoddi, yn unol â GDPR y DU a Pholisi Preifatrwydd Our Future Health.

## Pwy fydd yn cael mynediad at fy samplau a'm data?

### Our Future Health

Os byddwch yn penderfynu ymuno ag Our Future Health, byddwn yn storio'r data personol a roddir gennych ac y gellir ei ddefnyddio i'ch adnabod (fel eich enw a'ch cyfeiriad). Bydd nifer cyfyngedig o staff yn Our Future Health yn gallu cael mynediad at y data yma er mwyn i ni allu cysylltu â chi a chysylltu â'r cofnodion sy'n ymwneud â'ch iechyd.

Mae cael mynediad at eich data personol adnabyddadwy hefyd yn golygu y gallwn gysylltu eich cofnodion iechyd â'r data arall rydym yn ei gasglu, er enghraifft eich data genetig, neu eich data holiaduron. Mae hyn yn ein helpu i greu darlun llawn o'ch iechyd. Cyn gadael i ymchwilwyr weld yr wybodaeth hon, byddwn yn dileu unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Os byddwch yn colli galluedd meddyliol, rydym yn awyddus i barhau i ddefnyddio eich data dad-ddynodedig er mwyn gallu ymchwilio i iechyd ac afiechyd. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn torri'r cysylltiad â'r data sy'n datgelu pwy ydych chi er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau perthnasol yn y DU. Mae'r cyfreithiau hyn yn cynnwys Deddf Galluedd Meddyliol (Cymru a Lloegr) 2005, Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016, neu Ddeddf Oedolion ag Analluogrwydd (Yr Alban) 2000.

### Proseswyr cofnodion iechyd

I gael mynediad at wybodaeth am eich iechyd sy'n cael ei storio gan y GIG a sefydliadau eraill, bydd angen i ni rannu rhywfaint o'ch data y gellir ei defnyddio i'ch adnabod (er enghraifft eich rhif GIG, eich enw neu'ch dyddiad geni) â nhw. Byddwn yn rhannu'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol yn unig, a bydd rheolaethau llym ar waith i ddiogelu eich data personol.

### Ymchwilwyr cofrestredig

Dim ond drwy system storio data hynod ddiogel ar-lein y bydd ymchwilwyr cofrestredig sy'n cynnal astudiaethau sy'n cynnwys data a gedwir gan Our Future Health yn unig yn gallu cael mynediad at eich data dad-ddynodedig ar gyfer eu hymchwil. Dim ond at ddibenion ymchwil dilys y mae'r systemau diogel hyn yn caniatáu i ymchwilwyr cofrestredig ddefnyddio'r data ynddynt. Ni fydd fyth yn bosibl i ymchwilwyr lawrlwytho eich data dad-ddynodedig o system storio data ddiogel ar-lein.

Mae gan rai o'n partneriaid elusennol, academaidd neu ddiwydiant eu systemau storio data diogel eu hunain. Gallant ofyn i Our Future Health 'achredu' eu systemau. Mae hyn yn golygu bod ganddynt adolygiadau llym o'u prosesau technegol, diogelwch, gweithredol a llywodraethu data. Os oes gan sefydliad system storio achrededig, a bod ganddo astudiaeth wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Mynediad, bydd yn gallu cadw copi o ddata dad-ddynodedig Our Future Health yn ei system ei hun er mwyn gwneud ymchwil. Hefyd, bydd unrhyw ymchwilydd neu sefydliad sy'n defnyddio eu system storio data ddiogel eu hunain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i gadarnhau eu bod yn dal i gydymffurfio â thelerau ac amodau Our Future Health.

**Ni fyddwn byth yn caniatáu mynediad at eich data ar gyfer unrhyw beth ar wahân i ymchwil iechyd sydd er budd y cyhoedd. Gall rhannu canlyniadau er budd y cyhoedd gynnwys rhannu canfyddiadau dad-ddynodedig â chyrff cyhoeddus – fel llywodraethau lleol a chanolog, sefydliadau hyd braich, neu gorfforaethau cyhoeddus – er mwyn rhoi sail i bolisi a chynllunio ar gyfer iechyd y cyhoedd. Gellir rhannu canfyddiadau dad-ddynodedig mewn cyfnodolion gwyddonol neu drwy fathau eraill o gyfryngau i godi ymwybyddiaeth o Our Future Health ymysg cyfranogwyr ac ymchwilwyr. Ni fyddwn byth yn gwerthu nac yn darparu eich data personol adnabyddadwy at ddibenion hysbysebu neu, er enghraifft, i gwmnïau yswiriant.**

Ni fyddwn byth yn caniatáu i'ch samplau gael eu defnyddio mewn ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid neu i greu llinellau celloedd (grŵp anfarwol o gelloedd a ddefnyddir mewn ymchwil) heb eich caniatâd penodol chi.

Ni fydd eich enw na'ch gwybodaeth adnabyddadwy byth yn cael eu defnyddio pan fydd canfyddiadau Our Future Health yn cael eu cyhoeddi a'u hyrwyddo.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am y ffordd mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth:**

- Drwy ddarllen yr **Hysbysiad preifatrwydd i gyfranogwyr – Our Future Health**
- Drwy anfon e-bost at **support@ourfuturehealth.org.uk**
- Drwy ein ffonio ni ar **0808 501 5634**

# 4. Y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan

## Beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â chymryd rhan?

Gweithred i helpu pobl eraill yw ymuno ag Our Future Health. Byddwch yn rhoi eich amser a'ch data am ddim i helpu ymchwilwyr i wneud darganfyddiadau am iechyd a chlefydau dynol. Bydd hyn o fudd i genedlaethau'r dyfodol, gan helpu pobl i fyw mewn iechyd da am gyfnod hirach.

Yn y dyfodol, byddwn yn cysylltu â chi i gynnig adborth personol i chi am eich iechyd sy'n deillio o'ch samplau neu ddata. Efallai y byddwch yn credu bod hyn o fudd i chi, ond efallai ddim. Ni fyddwch yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd hyd yn oed os bydd darganfyddiadau o Our Future Health yn arwain at fudd masnachol i ymchwilwyr.

## Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan?

Ychydig iawn o risg o anaf corfforol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan. Gall tynnu sampl gwaed fod yn anghyfforddus a gall yr ardal o gwmpas y pigiad gleisio ychydig.

Rydym yn cymryd llawer o ragofalon diogelwch, gan gynnwys cael ein hardystio yn unol â safonau a osodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r GIG. Fodd bynnag, ni all y risg fyth fod yn sero. Mae risg fach y byddai rhywun, pe bai diogelwch yn cael ei dorri, yn gallu gweld neu ddefnyddio'r data sydd gennym amdanoch chi.

Yn y dyfodol, os byddwch yn dewis derbyn gwybodaeth iechyd bersonol neu'n cytuno i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil ychwanegol, efallai y byddwch yn dysgu gwybodaeth newydd am eich iechyd sy'n gwneud i chi boeni. Bydd gennych bob amser ddewis i gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol neu beidio. Ni fyddwch byth yn cael gwybodaeth am iechyd nac yn cael eich cynnwys mewn astudiaethau ymchwil pellach heb eich caniatâd penodol.

Efallai y bydd risgiau eraill nad ydym yn gwybod amdanynt eto hefyd, a byddwn yn cysylltu â chi os daw risg newydd i'r amlwg.



# 5. Sut rydym yn cael ein rhedeg a'n hariannu

## Gwybodaeth am ein cyllid

Mae Our Future Health yn cael ei ariannu drwy Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd, y diwydiant Gwyddorau Bywyd, ac elusennau sy'n bartneriaid, a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddylunio a chyflawni'r rhaglen.

Mae Our Future Health yn rhaglen fawr iawn ac rydym yn defnyddio partneriaid cyllido fel elusennau a chwmnïau sy'n cynnal ymchwil iechyd ac yn gwneud y meddyginiaethau, y profion a'r cyfarpar a ddefnyddir i atal, canfod a thrin clefydau. Byddwn bob amser yn agored ynghylch pwy sy'n ariannu Our Future Health, a gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein gwefan **www.ourfuturehealth.org.uk.**

Bydd partneriaid cyllido yn cael gwneud cais i wneud ymchwil gyda data Our Future Health. Fel pob cais, bydd y ceisiadau hyn yn mynd drwy ein Bwrdd Mynediad*.

Bydd pob ymchwilydd cofrestredig arall sy'n defnyddio Our Future Health yn helpu gyda'i gostau rhedeg ar sail prawf modd.

* Gwybodaeth naid: Bydd pob cais ymchwil, boed gan gyllidwyr neu ymchwilwyr mewn cwmnïau diwydiant, sefydliadau academaidd, y llywodraeth, y GIG, neu elusennau eraill, yn cael ei adolygu yn yr un ffordd ac yn gorfod cadw at yr un safonau.

## Sut rydym yn cael ein rhedeg

Mae Our Future Health yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (rhif elusen 1189681), a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif elusen SC050917). Mae hefyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 12212468).

Fel pob elusen arall, mae angen arian ar Our Future Health i weithredu. Fodd bynnag, mae gallu Our Future Health i fasnachu yn gyfyngedig, oherwydd nid yw cynhyrchu refeniw yn ddiben elusennol, hyd yn oed pan wneir hynny i gefnogi gweithgaredd elusennol. Felly, rydym wedi sefydlu Our Future Health Trading Limited, sydd dan berchnogaeth lwyr elusen Our Future Health. Mae hwn yn fodel gweithredu cyffredin ar gyfer mudiadau elusennol.

Unig ddiben Our Future Health Trading Limited yw cynhyrchu cyllid ar gyfer elusen Our Future Health. Mae'n gwneud hyn drwy ymrwymo i gytundebau masnachol â phartneriaid, neu drwy godi ffioedd mynediad am ddata ymchwil yn unol â'n proses mynediad. Yn y dyfodol, bydd yn codi tâl am wasanaethau sydd eu hangen i alluogi astudiaethau ymchwil ychwanegol gyda chyfranogwyr. Caiff yr holl elw a wneir gan Our Future Health Trading Limited ei ddychwelyd i elusen Our Future Health i gael ei ddefnyddio i gyflawni ei chenhadaeth.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill fel y GIG, elusennau iechyd a chwmnïau i gyflwyno'r rhaglen ymchwil hon. Mae gennym hefyd nifer o fyrddau sy'n cynghori ar feysydd sy'n cynnwys gwyddoniaeth, moeseg, amrywiaeth a chynhwysiant. Gallwch ddarllen mwy am sut mae Our Future Health yn cael ei redeg ac am ein byrddau cynghori ar ein gwefan **www.ourfuturehealth.org.uk/about-us.**

---

## Sut mae cwmnïau masnachol yn rhan o Our Future Health?

Mae'n bosibl y gallai ymchwil a wneir gan ddefnyddio data gan Our Future Health gyfrannu at ddatblygu cynnyrch newydd, fel profion neu driniaethau sy'n fuddiol i iechyd, ac a allai gael eu defnyddio i wneud elw i'r cwmnïau hynny yn y pen draw. Mae Our Future

Health yn cael refeniw yn sgil rhoi mynediad i'r data ymchwil drwy Our Future Health Trading Limited.

Un o amcanion craidd Our Future Health yw galluogi ymchwil a fydd yn arwain at welliannau o ran atal clefydau, eu canfod yn gynharach, a'u trin.

Mae cwmnïau gwyddorau bywyd masnachol yn arbenigo mewn darganfod, datblygu a gweithredu cynnyrch newydd – fel profion a thriniaethau canser newydd. Mae Our Future Health yn cydnabod gwerth y cwmnïau hyn fel partneriaid ar gyfer cyllido a chyflawni datblygiadau ym maes iechyd, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn ychwanegu at y cyllid a gawn gan elusennau a'r llywodraeth. Drwy ymuno â'r cwmnïau hyn sy'n cwmpasu amrywiaeth o glefydau, gall Our Future Health hefyd gefnogi a chael mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigeddau ymchwil. Mae'r wybodaeth a'r cymorth ariannol yma wedi galluogi Our Future Health i ddatblygu adnodd ymchwil a fydd yn cyflymu cynnydd ac yn cefnogi ymchwilwyr o lawer o gefndiroedd a sectorau gwahanol – gan gynnwys y GIG, prifysgolion, elusennau ymchwil feddygol, a chwmnïau masnachol – i wneud darganfyddiadau a all wella iechyd pobl. Mae rhestr lawn o'r mudiadau sydd wedi darparu cyllid i'w gweld yn https://ourfuturehealth.org.uk/get-involved/partners/.

Fel pob ymchwilydd arall, mae'n ofynnol i fudiadau sy'n ariannu Our Future Health gyflwyno ceisiadau ymchwil. Caiff y ceisiadau hyn eu hadolygu gan ein Bwrdd Mynediad annibynnol yn yr un modd â phob cais arall, ac mae'r un amodau mynediad a defnydd a esbonnir yn y daflen wybodaeth hon yn berthnasol iddyn nhw bob amser. Mae crynodeb o'r holl geisiadau a gymeradwyir gan Our Future Health ar gael i'r cyhoedd.

## Beth fydd yn digwydd i ganfyddiadau'r ymchwil?

Bydd darganfyddiadau a wneir drwy Our Future Health yn cael eu cyhoeddi mewn papurau gwyddonol a byddant ar gael ar-lein. Bydd eich enw ac unrhyw fanylion personol yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Dylech fod yn ymwybodol y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddarganfyddiadau ddod o'r rhaglen ymchwil.

Gall unrhyw ymchwilwyr sy'n cynnal gwaith ymchwil gydag Our Future Health wneud elw o'u darganfyddiadau.

Gallwch ddewis cael diweddariadau rheolaidd i gael gwybod am ein cynnydd a'r darganfyddiadau sy'n deillio o Our Future Health.

## Cynnwys y cyhoedd

Mae aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Our Future Health, a byddant yn parhau i fod. Mae hyn yn cynnwys grwpiau ffocws, cyfweliadau a bwrdd cynghori cyhoeddus.

## Pwy sydd wedi adolygu a chymeradwyo Our Future Health?

Mae rhaglen ymchwil Our Future Health wedi cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil GIG Dwyrain Caergrawnt. Bydd cymeradwyaeth y rhaglen yn cael ei hadnewyddu bob pum mlynedd a gall agweddau ar y rhaglen newid wrth iddi esblygu.

## Pryderon a chwynion

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am unrhyw agwedd ar y rhaglen ymchwil hon, cysylltwch â ni ar **support@ourfuturehealth.org.uk** neu **0808 501 5634**.

Os ydych chi'n dal yn anhapus neu'n bryderus ac yn dymuno cwyno'n ffurfiol, gallwch wneud hyn drwy gysylltu â **complaint@ourfuturehealth.org.uk** neu drwy ysgrifennu atom yn Our Future Health, 2 New Bailey, 6 Stanley Street, Salford, Manceinion Fwyaf, M3 5GS.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at **support@ourfuturehealth.org.uk** neu drwy ein ffonio ar **0808 501 5634**.

Our Future Health

ourfuturehealth.org.uk

# Gadewch i ni atal clefyd gyda'n gilydd